# LEFEL SAIN

## SUT I CHWARAE:

- Trafodwch â'r plant beth mae botwm rheoli sain yn ei wneud, er enghraifft ar radio. Eglurwch, mewn dawns, ein bod yn cynyddu maint y symudiadau sy'n cael eu perfformio, yn hytrach na chynyddu'r sain. Mae gennym raddfa symudiad o un i ddeg i ddangos maint y symudiad. Fel arfer, pan fyddwn yn symud o gwmpas yn ein bywyd bob dydd, rydym yn perfformio ein symudiadau ar rif pump.
- Mae'r plant yn symud o gwmpas yr ystafell a phan fydd rhif yn cael ei alw, rhaid i'r plant symud gan ddefnyddio symudiadau ac ystumiau sy'n adlewyrchu maint y rhif, e.e. byddai rhif un yn symudiadau sy'n fach iawn a byddai symudiadau rhif deg yn fawr iawn ac yn ormodol.
- Galwch amrywiaeth o rifau gwahanol ac wrth i'r rhif newid, bydd angen i'r plant feddwl am sut i newid maint / graddfa perfformiad y symudiad teithio o amgylch yr ystafell, i gyd-fynd â'r rhif sy'n cael ei alw.
- Ni ddylai'r plant newid y cyflymder, dim ond maint / graddfa'r symudiad pan fydd rhif yn cael ei alw.
- Arbrofwch ar symudiadau teithio, cyn symud ymlaen i weithrediadau ac ystumiau, er enghraifft: chwifio helo, dylyfu gên / ymestyn.

### Adnoddau

- Argymhellir chwarae cerddoriaeth ar lefel isel iawn nes bod y plant wedi deall y cysyniad.